**LC1192**

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** | **LEGISLATION COMMITTEE REPORT** |

### Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Cymru) 2006

Diben y Rheoliadau hyn yw dirymu, gyda rhai eithriadau, ac ailddeddfu (gyda diwygiadau neu hebddynt) ddarpariaethau Rheoliadau Porthiant (Cymru) 2001 a chyflwyno darpariaethau newydd i orfodi ac i weinyddu Rheoliad (EC) Rhif 1831/2003 ynghylch ychwanegion sydd i'w defnyddio ar gyfer maethiad anifeiliaid.

## Rheol Sefydlog 11.7

Mae'r pwyntiau isod wedi'u nodi i'w hadrodd o dan Reol Sefydlog 11.7.

1. Mae Rheoliadau 20 a 21 yn cyfeirio at Reoliadau Porthiant 2000. Mae Rheoliadau 2000 wedi'u dirymu mewn perthynas â Lloegr, ond mae rheoliadau 11 a 12 yn dal i fod mewn grym mewn perthynas â Chymru. Felly nid yw diben yr ymadrodd "fel petai rheoliad 11 y Rheoliadau hynny'n parhau i weithredu " yn rheoliad 20(5) yn glir. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

2. Mae testun y Rheoliadau hyn yn ddwyieithog, ond mae'r Atodlenni (ac eithrio'r penawdau) yn Saesneg yn unig. Mae'r Atodlenni yn dechnegol eu natur ac mae'r trefniant hwn yn dilyn y cynsail a osodwyd yn Rheoliadau 2001, sef y Rheoliadau y mae'r rhain yn eu disodli. [Rheol Sefydlog 11.7(vii)]

## Sylwadau

Yn Rheoliadau 2001, defnyddiwyd "porthiant" yn Gymraeg i gyfateb i "feeding stuffs" yn Saesneg. Yn dilyn trafodaeth eang ar derminoleg, penderfynwyd defnyddio'r gair "porthiant" i gyfateb i "fodder" yn unig a defnyddio "bwyd neu fwydydd anifeiliaid" ar gyfer y math o fwyddydd anifeiliaid y bwriadwyd y Rheoliadau hyn ar eu cyfer, lle y cafwyd mwy o ymyrraeth ddynol.

Mae Rheoliad 9 yn peri iddi fod yn ofynnol i wybodaeth benodol fod ar gael yn Saesneg (9(3)(b)). Fodd bynnag, os bwriedir allforio i Aelod-Wladwriaeth arall, rhaid i'r datganiad statudol fod mewn un neu ragor o ieithoedd swyddogol y Gymuned, yn ôl penderfyniad yr Aelod-Wladwriaeth (9(5)). Os bwriedir allforio i Wladwriaeth yr Ardal Economaidd Ewropeaidd nad yw'n Aelod-Wladwriaeth, rhaid i'r datganiad fod mewn un neu ragor o ieithoedd swyddogol y gyrchwlad (9(6)). Nid yw hyn yn peri na ellir darparu mathau eraill o wybodaeth neu ddefnyddio ieithoedd ychwanegol, gan gynnwys Cymraeg.

Cafodd nifer o bwyntiau bach sy'n ymwneud â fformadu, sillafu, troednodiadau a'r Nodyn Esboniadol eu nodi i'w cywiro wrth gyhoeddi'r Rheoliadau.

# Glyn Davies AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 10 Ionawr 2006